Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

10. Hyrwyddo a marchnata

10.7 Datblygu a chynnal gwefan

Sut i ddal sylw

Dylai eich cynulleidfa posib ddod o hyd i chi'n hawdd drwy eiriau allweddol mewn chwilotwr, os na trwy 'Uniform Resource Locator (URL)' sydd yn gofiadwy a hawdd ei ddyfalu. Felly, bydd angen i chi roi cymaint o wybodaeth â phosib ar eich gwefan:

- Sicrhewch fod pennawd i bob tudalen
- Cofrestrwch eich gwefan gyda chwilotwr, gan nad yw pobl yn chwilio drwy URL yn unig.
- Diweddarwch eich cofrestru ar sail reolaidd (yn fisol fel arfer).

Cynlluniwch eich strategaeth

Gwerthuswch ble ydych chi o fewn chwilotwr. Dyma fan cychwyn eich llwyddiant. Cynharwch gyda chystadleuydd allweddol neu fudiad tebyg. Ceisiwch ddod o hyd i beth maen nhw'n gwneud yn well a mabwysiadwch unrhyw arferion da.

Ymchwiliwch i restr o eiriau neu gymalau allweddol. Beth yw'r geiriau mwyaf tebygol y byddai rhywun yn eu defnyddio i chwilio amdanoch? Nid yw hyn mor amlwg a feddyliwch chi. Ceisiwch ddod o hyd i rywun sydd ddim yn perthyn i'r mudiad i feddwl am eiriau.

Efallai byddwch eisiau prynu enw parth addas, e.e. .org, .org.uk, .co.uk, neu amrywiadau ar enw, e.e. 'mediatrust, media-trust, themediatrust'. Mewn geiriau eraill, defnyddiwch unrhyw beth amlwg y gellir ei ddefnyddio i ddyfalu'ch cyfeiriad gwefan.

Cyflwyniad y safle

Ni fydd chwilotwyr yn dod o hyd i chi yn awtomatig. Felly, rhaid i chi gofrestru eich gwefan gyda phrif chwilotwyr. Mae yna fudiadau masnachol a fydd yn gweithredu ar eich rhan, ond gallant fod yn ddrud - mae 72% o gyflwynwyr yn gwneud hyn eu hunain. Mae defnyddio gwasanaeth awtomatig yn addas ar gyfer chwilotwyr 'llai' yn unig.

Mae gan bob chwilotwr broses gyflwyno gwahanol. Er enghraifft, mae Yahoo yn sgrinio pob cyflwyniad am rinwedd unigol. Gall yr amser a gymerir i gofrestru'ch gwefan amrywio'n sylweddol rhwng chwilotwyr, o rai diwrnodau i dros bedair wythnos.

Dyfalwch yw'r allwedd. Parhewch i fonitro ble mae'ch gwefan yn ymddangos ar y chwilotwyr. Os oes newidiadau sylweddol, ceisiwch ddarganfod pam. Ceisiwch ddilyn y datblygiadau mewn strategaeth a ddefnyddir gan y chwilotwyr wrth restru gwefannau.

Meta tagiau

Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am dudalennau gwe sydd ynghudd ar-lein. Maen nhw'n cynnwys geiriau allweddol a disgrifiadau cynnwys tudalen. Defnyddir y wybodaeth gan chwilotwyr i raddio gwefannau.

Yn nyddiau cynnar y Rhyngrwyd roeddent yn hanfodol, nawr dyw rhai chwilotwyr ddim yn eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig i adnabod geiriau allweddol perthnasol ar gyfer pob tudalen eich gwefan a disgrifiad cryno.

Strategaeth gysylltu

Mae nifer y cysylltiadau i'ch gwefan yn bwysig iawn i beiriannau 'poblogaidd' megis Google a Yahoo. Mae'r prif chwilotwyr yn cyfri nifer y cysylltiadau gweledol i'ch gwefan fel mesur eu 'poblogrwydd' ac yn newid ei raddio yn sgil hyn. Mae datblygu strategaeth gysylltu yn hanfodol i sicrhau graddio uwch. Edrychwch ar gysylltu gyda gwefannau perthnasol, ond byddwch yn greadigol. Wedyn ychwanegwch eu cysylltiadau hwy i'ch gwefan chi.

Geiriau allweddol

Mae gosod geiriau allweddol yn bwysig ar deitlau tudalennau ac yn y paragraff cyntaf. Mae anghenion chwilotwyr yn gwahaniaethu:

- Mae rhai'n hoffi crybwyll geiriau allweddol rhyw bedair neu bum gwaith.
- Mae eraill yn edrych am eiriau allweddol hyd at wyth gwaith.
- Mae rhai'n ffafrio gweld y geiriau allweddol yn y paragraff olaf.

Nodweddion chwilotwyr

Peidiwch â chael eich temtio i dwyllo! Yn fwyfwy mae pobl yn ceisio twyllo chwilotwyr mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae'r chwilotwyr yn ymwybodol o hyn a gellir eich diddymu o'u rhestrau yn gyfan gwbl.

Cynnal eich gwefan a mesur ei lwyddiant

Mae defnyddwyr yn disgwyl gwybodaeth newydd a chyfoes bob tro y byddant yn ymweld â'ch gwefan. Nid ydynt yn poeni am faterion adnoddau. Maen nhw'n disgwyl i bopeth weithio: dim cysylltiadau toredig, dim delweddau coll, a dim gwallau teipio. Rydych chi eisiau iddynt adael y gwefan wedi derbyn profiad cadarnhaol ac felly mae angen arnoch lefel adnodd un-pwrpas. Mae hyn yn dibynnu ar faint eich mudiad a'r adnoddau sydd ar gael i chi.

Canllaw cyflym i reoli'ch gwefan

- Cynlluniwch restr cynnwys misol a blynyddol.
- Adnabyddwch dasgau a chyfrifoldebau allweddol.

- Ysgrifennwch, cynlluniwch ac adeiladwch ddeunydd newydd.
- Sefydlwch ganllawiau sicrwydd ansawdd (gweler isod).
- Sefydlwch broses terfynu.

Cynllunio rhestr cynnwys

Adnabyddwch gynnwys 'deinamig' - hynny yw, deunydd sydd angen diweddariad aml. Meddyliwch am y meysydd cynnwys yma:

- Micro-gynnwys - penawdau a chysylltiadau byr.
- Newyddion - cofiwch gysylltu i dudalennau eraill eich gwefan.
- Ymgyrchoedd.
- Codi arian.

Y cynnwys 'statig' yw hwnnw i'w ddiweddaru pan fo angen, megis 'Amdanon ni' neu 'Cysylltwch â ni'.

Gwnewch e'n ddarllenadwy

Pan fyddwch yn ysgrifennu, cynllunio ac adeiladu cynnwys, mae'n bwysig i gofio fod defnyddwyr yn darllen rhyw 50% yn llai ar-lein. Torrwch y testun gan ddefnyddio is-deitlau a gwaith trwm - mae'r ddau yn gwneud y testun yn haws ei ddarllen. Sicrhewch fod cynnwys newydd yn cysylltu â'r hen ddeunydd. Cadwch y gosodiad yn gyson drwy ddefnyddio templedau.

Sicrwydd ansawdd

- Nid yw defnyddwyr yn hoffi gwallau sillafu a thoriadau cyswllt.
- Gofynnwch i rywun arall i wirio'ch gwaith yn fanwl.
- Peidiwch â defnyddio gwaith heb ei wirio.
- Gosodwch ganllaw arddull olygyddol fel ar gyfer deunyddiau i'w hargraffu.

Ond fe fydd yna broblemau....

- Wrth i'r cynnwys dyfu, bydd gennych broblemau llywio ac efallai bydd angen i chi gyflwyno cyfleuster chwilota. Efallai bydd labelu'r botymau yn anghywir neu'n anaddas a bydd rhaid eu hadolygu.
- Bydd lefelau hierarchaeth yn annigonol.
- Bydd rhai meysydd yn fwy poblogaidd nag eraill.
- Gellir torri hen gysylltiadau.
- Gall gwybodaeth fod yn gamarweiniol neu wedi darfod.

Mewn geiriau eraill, rhaid i chi fesur llwyddiant yn gyson, a chynllunio'r cam nesaf. Dylai gwefannau fod yn ddeinamig a hyblyg. Ni fydd gwefan statig yn derbyn ail ymweliad neu ddiddordeb pellach.

Mesur llwyddiant eich gwefan

Ystadegau'r we
Mae gwefannau llwyddiannus yn defnyddio 'dadansoddiad ffeiliau log' i ddarganfod eu heffeithiolrwydd. Gwneir

hyn drwy ddefnyddio ffeil ar y we sy'n cadw golwg ar bob ymholiad ffeil a wneir gan ddefnyddiwr. Mae dadansoddi'r data yn dangos defnydd y wefan. Gallwch brynu cynnyrch meddalwedd i helpu prosesu'r data e.e. WebTrends, WebAbacus, Microsoft Site Server, I/PRO, RedEye.

'Trawiadau' ac 'argraffiadau tudalen'
Bydd adroddiadau a gynhyrchir gan y meddalwedd yn dadansoddi pob gweithgaredd ar y wefan gan gynnwys y ddau uchod. Nid yw trawiadau yn berthnasol: mae tudalennau gyda mwy o ddelweddau yn derbyn mwy o drawiadau gan ddefnyddwyr. Mae argraffiadau yn bwysig ar gyfer gwefannau sy'n hysbysebu, ond yn amherthnasol i elusennau. Felly beth sy'n bwysig? Ymwelwyr.

Sut allwch chi ychwanegu gwir werth?

Ceisiwch wella cyfran ymwelwyr newydd ac ail-ymweld. Y rhai sy'n ail-ymweld sydd fwyaf gwerthfawr - os yw pobl yn dychwelyd eto, rhaid eu bod yn cael rhywbeth defnyddiol o'r wefan. Fodd bynnag, gellir ymyrryd â'ch ystadegau gan un person sy'n dychwelyd sawl gwaith.

Edrychwch ar bwyntiau ymadael - tudalennau ble mae pobl yn gadael y wefan. Er enghraifft, gall dadansoddiad ddangos fod tudalennau rhoddion yn achosi pobl i adael. Ystyriwch greu 'siwrnai defnyddiwr' os yw'ch dadansoddiad yn dangos fod tudalennau poblogaidd yn cael eu defnyddio. Gellir pennu'r rhain drwy edrych ar hyd yr ymweliad a'r nifer o dudalennau a welir.

Mae dadansoddiad y data yn arwain at yr argymhellion yma:

- Ardaloedd i'w hail-gynllunio - tudalennau sy'n achosi problem.
- Ardaloedd i graffu arnynt - cynnwys llwyddiannus.
- Ardaloedd i'w gwaredu - cynnwys aflwyddiannus

Gwybodaeth bellach

www.icthub.org.uk

www.egovmitor.com

www.volresource.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:10/04/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk